

Trosolwg o'r Gyllideb 2020-21



Y Cyd-destun Ariannol

Ers sawl blwyddyn, ledled y DU, mae cynghorau wedi wynebu heriau digynsail yn sgil gostyngiadau mewn cyllid gan y Llywodraeth a chynnydd yn y galw am wasanaethau hanfodol. Ceir ansicrwydd eang hefyd yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ac effaith bosibl hynny ar yr hinsawdd economaidd. Mae setliad cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer 2020-21 yn llawer gwell nag a ddisgwyliwyd yn flaenorol. Er hynny, daw'r cyllid hwnnw ar adeg lle ceir galw ac ansicrwydd cynyddol, a bydd y cyfnod hwn yn dal i fod yn un heriol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb derfynol ar gyfer 2020-21 ym mis Chwefror 2020. Roedd y gyllideb yn cynnwys cyllid i dalu am y pwysau ariannol yn sgil y dyfarniad cyflog athrawon, a'r cynnydd ym mhensiynau athrawon, ynghyd ag effaith Credyd Cynhwysol ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Yr oedd hefyd yn cynnwys y flwyddyn olaf o gyllid cyfalaf ledled Cymru (£100 miliwn dros gyfnod o 3 blynedd) i gefnogi buddsoddiad cyfalaf yn asedau a seilwaith awdurdodau lleol, ynghyd â £15 miliwn ledled Cymru er mwyn galluogi awdurdodau i ymateb i'r angen i ddatgarboneiddio ar frys.

Rhwng 2016-17 a 2019-20 mae'r Cyngor wedi gorfod sicrhau arbedion gwerth mwy na £27 miliwn yn sgil gostyngiadau mewn cyllid gan lywodraeth genedlaethol ynghyd â galw cynyddol. O ystyried yr hinsawdd economaidd cyfredol, a'r ansicrwydd ynghylch hynny, rydym yn tybio y bydd y sefyllfa ariannol anodd yn parhau am amryw o flynyddoedd i ddod ac yn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig rydym yn amcangyfrif, rhwng 2020-21 a 2023-24 y bydd yn rhaid inni sicrhau arbedion pellach o oddeutu £29 miliwn.

Mae toriadau ar y raddfa hon yn creu her sylweddol i'r Cyngor a fydd yn golygu bod angen inni wneud llawer o benderfyniadau anodd ynghylch pa wasanaethau y gellir, ac na ellir, eu cynnal. Yn amlwg, rydym am leihau, hyd yr eithaf, effaith y gostyngiad mewn cyllid ar y gwasanaethau a ddarperir i'n dinasyddion. Rydym felly yn ceisio canfod hanner ein harbedion drwy wneud defnydd doethach o adnoddau, yn hytrach na gostwng ansawdd neu gwtogi lefel y gwasanaeth.

Byddwn yn llwyddo i daro cydbwysedd drwy newid ein polisiau a'r modd y darperir rhai gwasanaethau, a hefyd drwy leihau neu dynnu rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd yn ôl. Gan fod oddeutu deuparth cyllideb y Cyngor yn gysylltiedig â chostau cyflogau staff, mae'n anochel y bydd unrhyw ostyngiad yng nghyllidebau meysydd gwasanaeth yn golygu bod yn rhaid lleihau gweithlu'r Cyngor.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymgynghoriad ar y gyllideb er mwyn cael safbwyntiau trigolion a rhanddeiliaid ynghylch y cynigion uchod, sydd wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses gyffredinol. Rydym wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â'r gymuned i leihau effaith y toriadau cyllidebol hyd yr eithaf, a gallai hyn gynnwys trosglwyddo rhai asedau i'w rheoli a'u cynnal gan y gymuned.


Cyllideb Refeniw 2020-21



Mae cyllideb refeniw flynyddol awdurdod lleol yn cynnwys costau cynnal yr awdurdod lleol o ddydd i ddydd (gan gynnwys cyflogau staff, cynnal a chadw tai, pensiynau costau gweithredol ac ati). Cyllideb refeniw net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn 2020-21 yw £286.885 miliwn, sef cynnydd o £16.076 miliwn o gymharu â 2019-20. Mae'r Cyngor yn derbyn mwyafri ei gyllid refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a thrwy gyfran o Ardrethi Annomestig. Cafwyd cynnydd o 4.7% i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2020-21. Bydd angen y cynnydd hwn i ariannu effaith blwyddyn lawn y cynnydd yng nghyflogau a phensiynau athrawon ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill hyd fis Awst 2020, effeithiau dyfarniadau cyflog athrawon yn y dyfodol a ddaw i rym o fis Medi 2020, ac i ddarparu cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan fod Llywodraeth y DU yn parhau i roi Credyd Cynhwysol ar waith.

Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020-21 yn cynnwys dyraniad o £6.683 miliwn i dalu pwysau na ellir eu hosgoi ar y gyllideb, gan gynnwys pwysau sy'n deillio o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol, a newidiadau demograffig a statudol. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau sylweddol sy'n deillio o gynnydd cyflog a gytunwyd yn genedlaethol, fel y Cyflog Byw Cenedlaethol, a'r pwysau sy'n codi mewn perthynas â thir y cyhoedd, a gwasanaethau a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â lleoedd.

Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys cynigion arbed gwerth £2.413 miliwn yn 2020-21. Un o egwyddorion allweddol y Cyngor er mwyn datblygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw bodloni ei rwmedigaethau statudol a chyfeirio ei adnoddau at ei flaenoriaethau corfforaethol / amcanion llesiant.




Y Dreth Gyngor

Tâl a godir gan awdurdodau lleol er mwyn helpu i dalu am eu gwasanaethau yw'r Dreth Gyngor. Mae'n ffynhonnell o gyllid a ddefnyddir gan gynghorau i gyfrannu at wasanaethau na thelir amdanynt yn llwyr drwy grantiau neu gyllid Llywodraeth Cymru. Fe'i defnyddir i dalu am ystod fawr o wasanaethau lleol, gan gynnwys addysg, cynllunio, gwasanaethau cymdeithasol, casgliadau ac ailgylchu gwastraff, rheoli plâu, caeau chwarae, cynnal a chadw priffyrdd, llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon a hamdden ymhlith eraill.



Mae'r swm a delir o'r dreth gyngor eleni yn creu cyfanswm o bron i £84 miliwn, sef cynnydd cyfartalog o 4.5% ym Mand D ar gyfer elfen y cyngor bwrdeistref sirol. Mae praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru wedi cynyddu ar sail swm cyfwerth â 5.9% ym Mand D, ac mae'r praesept cyfartalog Band D ar gyfer cynghorau cymuned wedi cynyddu 7.3%. Cyfanswm y cynnydd cyfartalog i'r dreth gyngor yw 4.78%.



Rhaglen Gyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys nifer o gynlluniau mawr sy'n cynnwys naill ai caffael, creu neu gyfnwid un neu fwy o asedau'r Cyngor, fel ysgolion, priffyrdd, adeiladau cyhoeddus eraill. Mae cyfanswm o £56.434 miliwn o wariant cyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn cynnwys:

- £0.9m i gychwyn rhaglen gwella Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif,
- £3.0m ar ailwynebu cerbytyffyrdd a llwybrau troed,
- £0.8m ar gryfhau pontydd yng Nghwm Ogwr,
- £1.4m ar effeithlonrwydd ynni goleuadau stryd,
- £2.5m ar Adfywio Porthcawl,
- Buddsoddiad cyfalaf o £5.5m ym Margen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, a
- £6.4m i aiddatblygu Neuadd y Dref Maesteg yn ganolbwynt diwylliannol.



Ceir hefyd nifer o ddyraniadau sefydlog blynyddol i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl statudol, cyflawni mân waith cyfalaf ar adeiladau'r Cyngor a bodloni gofynion cynnal cylchol yn gysylltiedig â phriffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Ariennir y buddsoddiadau hyn drwy grantiau cyfalaf craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru, derbyniadau cyfalaf (yn sgil gwaredu asedau presennol), benthycu darbodus a chyllidebau refeniw sy'n creu cyfanswm o £38.8 miliwn, gyda'r balans wedi'i dalu drwy grantiau allanol.

Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn

Cronfa a ddelir i reoli effaith llifoedd arian anghyson a digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau yw Cronfa'r Cyngor. Amcangyfrifir mai oddeutu £9 miliwn yw balans y gronfa ar 31 Mawrth 2020. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd wedi'u clustnodi a neilltuir i ddibenion penodedig, y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant ar y dibenion hyn yn y blynyddoedd nesaf.